# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU [[F1]A CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG] A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH[[F2]: PRIF GYNGHORAU]

*Cefnogaeth a chymorth i wella perfformiad*

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Rhn. 6 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(1)**

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Geiriau yn Rhn. 6 Pnd. 1 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(2)**

### 102 Cefnogaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu unrhyw gefnogaeth a chymorth i brif gyngor y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Cefnogaeth a chymorth i wella perfformiad. (See end of Document for details)*

(2) Caiff prif gyngor ofyn i Weinidogion Cymru ystyried darparu cefnogaeth a chymorth i'r cyngor o dan is-adran (1).

(3) Cyn darparu cefnogaeth a chymorth i brif gyngor o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyngor ynglŷn â'r gefnogaeth a'r cymorth y maent yn bwriadu eu darparu.

(4) Mae'r swyddogaeth yn is-adran (1) yn cynnwys pŵer—

(a) i ymrwymo i gontract neu gytundeb neu drefniant arall ag unrhyw berson;

(b) i gydweithredu ag unrhyw berson, neu i hwyluso neu gydgysylltu gweithgareddau unrhyw berson;

(c) i ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau ac adeiladau neu ystafelloedd i unrhyw berson.

## 103 Cyfarwyddyd i brif gyngor ddarparu cefnogaeth a chymorth

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor i ddarparu i brif gyngor arall ("y cyngor a gefnogir") unrhyw gefnogaeth a chymorth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor a gefnogir yn bodloni'r gofynion perfformiad.

(2) Rhaid i'r gefnogaeth a'r cymorth sydd i'w darparu gael eu pennu yn y cyfarwyddyd.

(3) Ond cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r ddau gyngor.

(4) Mae'r gefnogaeth a'r cymorth y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor i'w darparu yn cynnwys—

(a) ymrwymo i gontract neu gytundeb neu drefniant arall â'r cyngor a gefnogir (a chaiff y cyfarwyddyd bennu ei delerau a'i amodau);

(b) cydweithredu â'r cyngor a gefnogir, neu hwyluso neu gydgysylltu ei weithgareddau;

(c) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau ac adeiladau neu ystafelloedd i'r cyngor a gefnogir.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Cefnogaeth a chymorth i wella perfformiad.